Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Trefniadau Diogelwch

03 Rhagfyr 2015

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

*Rwy'n gofyn am y wybodaeth ganlynol o dan y darpariaethau a nodir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n gofyn am ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith:*

1. *Nifer y staff diogelwch cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn ystâd y Cynulliad Cenedlaethol (gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y Senedd a Thŷ Hywel), a ph'un ai fod y staff hyn yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Cynulliad Cenedlaethol neu drwy gwmni contract, yn y flwyddyn ariannol 2014-15.*
2. *Y cyfanswm a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15 ar fesurau diogelwch (gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, cyflogau staff a / neu daliadau i'r cwmni contractio, cynnal a chadw offer diogelwch ac ati)*
3. *Nifer yr ymwelwyr a geir yn flynyddol i'r Senedd?*

Atebir eich cwestiynau isod.

1. *Nifer y staff diogelwch cyfwerth ag amser llawn a gyflogir yn ystâd y Cynulliad Cenedlaethol (gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, y Senedd a Thŷ Hywel), a ph'un ai fod y staff hyn yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Cynulliad Cenedlaethol neu drwy gwmni contract, yn y flwyddyn ariannol 2014-15.*
2. *Y cyfanswm a wariwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15 ar fesurau diogelwch (gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, cyflogau staff a / neu daliadau i'r cwmni contractio, cynnal a chadw offer diogelwch ac ati)*

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r wybodaeth y gofynnir amdani yn eich cais, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") o'r farn bod y

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6455
E-bost/Email: Buddug.Saer@Cynulliad.Cymru
Buddug.Saer@Assembly.Wales

wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 24(1) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Diben yr eithriad hwn yw atal datgelu gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer gwarchod diogelwch cenedlaethol, ac mae'r rhesymau dros arfer yr eithriad i'w gweld isod.
Mae adran 24 (1) o'r Ddeddf yn darparu bod: -

- *Gwybodaeth nad yw'n dod o fewn adran 23(1) yn wybodaeth eithriedig os yw eithriad o adran 1 (1) (b) yn ofynnol er mwyn sicrhau diogelwch cenedlaethol.*

Ystyriwn ei bod yn angenrheidiol i atal y wybodaeth hon er mwyn atal niwed, neu risg o niwed, i Aelodau'r Cynulliad, Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, staff Comisiwn y Cynulliad, ac ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â seilwaith ac adeiladau Cynulliad Cenedlaethol ei hun. Mae'r wybodaeth a gwmpesir gan y cais yn ymdrin yn gyffredinol â threfniadau ar gyfer diogelwch ystâd y Cynulliad Cenedlaethol, a'r risg sylweddol o ran datgelu'r wybodaeth hon yw bod tebygrwydd gwirioneddol y bydd yn niweidio effeithlonrwydd a chywirdeb y trefniadau hynny yn y dyfodol.

Mae'r eithriad hwn yn eithriad amodol, ac o'r herwydd, mae'n rhaid i'r budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad gael ei ystyried.  Y budd i'r cyhoedd y dylid ei ystyried o ran datgelu yw bod gan y cyhoedd hawl i wybod, a bod yn fodlon, bod trefniadau diogelwch digonol ar waith yn y weinyddiaeth ddatganoledig. Yn ein barn ni, ystyrir fodd bynnag, yn ei hanfod, bod rhyddhau'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio cywirdeb ac effeithiolrwydd trefniadau diogelwch y Cynulliad Cenedlaethol ac felly, yn yr achos hwn, mae'r budd i'r cyhoedd mewn dal yr wybodaeth yn drech na'r budd i'r cyhoedd mewn datgelu'r wybodaeth.

Ar hyn o bryd mae lefel y bygythiad gan derfysgaeth ryngwladol yn y DU wedi'i asesu fel bygythiad difrifol, fel y nodir yn: -

https://www.mi5.gov.uk/home/the-threats/terrorism/threat-levels.html

Mae'r digwyddiadau ym Mharis dros benwythnos y 14 Tachwedd wedi'u hystyried wrth bwyso a mesur y buddiannau i'r cyhoedd. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gofnod cryf o fod yn agored ac yn atebol. Yn y gorffennol, roedd gwybodaeth o'r math y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd. O ystyried y digwyddiadau diweddar, fodd bynnag, ac wrth ystyried ymarferion diogelwch parhaus a'r camau rhagofalus sy'n cael eu mabwysiadu mewn rhai dinasoedd mawr, mae'r ddadl dros atal y wybodaeth er lles y cyhoedd wedi'i chryfhau ymhellach.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei dal yn ôl o dan Adran 38 (1) (b) o'r Ddeddf, sy'n darparu:

- *Bod gwybodaeth yn wybodaeth eithriedig os byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn peryglu diogelwch unrhyw unigolyn neu y byddai'n debygol o wneud hynny.*

Mae'r wybodaeth yn cynnwys manylion am nifer y staff diogelwch llawn amser sy'n cael eu cyflogi yn ystâd y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwybodaeth bellach ynghylch y sail gytundebol y cawsant eu cadw. Nid yw'n debygol bod gwybodaeth o'r fath, ynddi'i hun, yn peryglu iechyd a diogelwch unrhyw unigolyn. Fodd bynnag, yn nwylo eithafwyr a / neu derfysgwyr, mae'n debygol o gael ei defnyddio i ffurfio trosolwg o ba mor agored i niwed, o bosibl, yw ystâd y Cynulliad Cenedlaethol.

Gan fod Adran 38 yn eithriad amodol, mae'n ofynnol i ni gynnal prawf lles y cyhoedd.

Mae budd i'r cyhoedd mewn darparu gwybodaeth i wneud awdurdodau cyhoeddus yn fwy atebol ac, yn yr achos hwn, i nodi a chyfiawnhau lefelau gwariant ar faterion gweithredol penodol. Gall datgelu, wrth gwrs, godi ymwybyddiaeth o faterion cyfredol a chodi safon y drafodaeth gyhoeddus. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eiriolwr dros dryloywder ac, yn wir, roedd gwybodaeth o'r natur y gofynnir amdani yn awr ar gael i'r cyhoedd yn flaenorol, fel y nodwyd eisoes.

Unwaith eto, cyfeiriwn at y digwyddiadau ym Mharis dros benwythnos y 14 Tachwedd. Mae materion o'r fath, wrth gwrs, wedi rhoi achos i'r Cynulliad Cenedlaethol ail-werthuso'r sefyllfa o ran sut y mae gwybodaeth benodol yn cael ei thrin ac a ddylai'r wybodaeth honno gael ei lledaenu i'r cyhoedd.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn debygol o beryglu diogelwch yr unigolion hynny sy'n cymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad a'r sawl sy'n gweithio yn y Cynulliad Cenedlaethol neu'n ymweld â'i hystâd.

Bodlonir y budd i'r cyhoedd o ran rhagor o graffu ar wariant cyhoeddus gan yr arfer o gyhoeddi adroddiadau ariannol a Datganiad o Gyfrifon yn flynyddol. Ni fyddai datgelu rhagor ynghylch gwariant gweithredol penodol a nifer y staff diogelwch a gyflogir yn gwella ymhellach atebolrwydd y Cynulliad Cenedlaethol fel sefydliad.

Ymhellach, caiff pa bynnag fudd i'r cyhoedd sy'n deillio o ddatgelu gwybodaeth atodol, y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar gael, ei orbwyso gan y budd i'r cyhoedd y dylai unigolion gael eu diogelu rhag bygythiadau i'w hiechyd a'u diogelwch meddyliol a chorfforol. Yn ychwanegol, mae budd cyhoeddus cryf a phenodol na ddylai Aelodau'r Cynulliad gael eu hatal neu'u

rhwystro rhag cymryd rhan mewn deddfu ar gyfer Cymru a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

3. *Nifer yr ymwelwyr a geir yn flynyddol i'r Senedd?*

Cyhoeddir y cais am wybodaeth yn ein Hadroddiadau ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol.

Gan fod y wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF